**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol o’r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar ddydd Llun, 13 Gorffennaf, 2020.**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 16 Gorffennaf, 2020 . Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 23 Gorffennaf, 2020. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener 24 Gorffennaf, 2020.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Aled Morris Jones, Dylan Rees, Dafydd Roberts.

**Ymddiheuriadau**: Dim

(10:00 y. b. tan 11:15 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 15 Mehefin, 2020 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi’i diweddaru am y cyfnod Medi, 2020 i Ebrill, 2021 gyda’r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Gwaith Cynllunio Cynnar ar gyfer Adfer yn dilyn yr haint Coronafeirws**<br>Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo ymagwedd y Cyngor o ran gwaith cynllunio ar gyfer adfer gan flaenoriaethu a chanolbwyntio ar gyflenwi'n lleol a chyflawni canlyniadau cadarnhaol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed hyd yma ar y gwaith cynllunio cynnar ar gyfer adfer** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Covid-19 - Effaith Ariannol ar y Cyngor**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi cynnwys yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn nodi goblygiadau ariannol pandemig Covid-19 ar gyllid y Cyngor.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Crynodeb o Gyfrifon Terfynol Drafft 2019/20**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft (heb eu harchwilio) ar gyfer 2019/20 (Y Datganiad o Gyfrifon llawn ar gael ar wefan y Cyngor).**<br>• **Nodi'r sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chymeradwyo'r defnydd o, neu** |

| | |
|---|---|
| | **gynnydd i gronfeydd wrth gefn unigol fel y nodir yn Atodiad 4 yr adroddiad.**<br>• **Cymeradwyo'r cronfeydd wrth gefn newydd, cyfanswm o £0.160m fel y nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad.**<br>• **Nodi'r sefyllfa o ran balansau'r ysgolion.**<br>• **Nodi balansau'r CRT fel yr oeddent ar 31 Mawrth, 2020.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I dderbyn y prif ddatganiadau ariannol drafft am 2019/20.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |